



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llanychllwydog
Pontfaen
Abergwaun
Sir Benfro
SA65 9SE**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2013

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Llanychllwydog yng Nghwm Gwaun, ardal Gymraeg yng ngogledd Sir Benfro. Mae'n ysgol draddodiadol Gymreig mewn dalgylch gwledig sy'n derbyn disgyblion o'r gymdeithas amaethyddol leol. Disgrifir yr ardal fel un heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae tua 81% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae Ysgol Llanychllwydog yn ysgol cyfrwng Cymraeg o dan Bolisi Iaith Sir Benfro. Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol ac mae holl awyrgylch yr ysgol yn Gymreig ei naws.

Adeiladwyd yr ysgol yng nghyfnod 1880 a'i harwyddair yw 'Gwreiddiau'r Gorffennol. Canghennau'r Dyfodol'. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais mawr ar feithrin y traddodiadau a'r arferion Cymreig sy'n rhan annatod o fywyd yr ardal.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 oed. Ar hyn o bryd, mae 23 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys dau blentyn oed meithrin rhan amser. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth, un ar gyfer Cyfnod Sylfaen ac un ar gyfer cyfnod allweddol 2. Nid oes neb yn hawlio prydau bwyd ysgol am ddim ar hyn o bryd. Mae naw o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes disgyblion mewn gofal, na disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Rheolir yr ysgol gan uwch dîm rheoli Ysgol Bro Inqli, Trefdraeth ers Medi 2006 gyda'r cyfrifoldeb dyddiol o reoli'r ysgol gan athrawes y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y cyfnod diweddar, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd o ran staff ac arweinyddiaeth ac, o ganlyniad, athrawon dros dro yw'r ddwy athrawes sy'n addysgu yno ar hyn o bryd.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanychllwydog yn 2012-2013 yw £5,870. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £5,870 a'r lleiafswm yw £3,138. Mae Ysgol Llanychllwydog yn y safle cyntaf o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro yn ôl y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2007.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau gwaith disgyblion yn gyffredinol dda;
- medrau llythrennedd y disgyblion yn dda yn Gymraeg drwy'r ysgol a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;
- disgyblion yn canolbwyntio'n dda iawn yn ystod sesiynau dysgu, ac yn ymroi'n bositif at eu tasgau;
- darpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn nodweddiadol gref;
- yr athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu i ennyn diddordeb;
- yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu priodol; a bod
- yr ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgarg.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth a'r dirprwy weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol;
- gwaith yr uwch dîm rheoli yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion;
- proses hunanarfarnu briodol gan yr ysgol sy'n arwain at gynllunio effeithiol ar gyfer gwelliant;
- y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol ac yn nodi'r camau gweithredu'n effeithiol; a bod
- gan yr ysgol hanes o sicrhau gwelliant mewn safonau.

Argymhellion

- A1 Datblygu gallu disgyblion y ddau gyfnod allweddol i ddysgu'n annibynnol ac i lywio eu dysgu eu hunain.
- A2 Sicrhau bod addysgu cyson dda yn gosod disgwyliadau uchel ar bob disgybl, gan gynnwys y rhai uwch eu gallu.
- A3 Cynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn medrau allweddol disgyblion.
- A4 Datblygu gallu'r llywodraethwyr i gwestiynu a herio perfformiad yr ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion Ysgol Llanychllwydog yn gyffredinol yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu. Mae man cychwyn disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn amrywiol ond mae bron pob un yn datblygu eu medrau dysgu yn llwyddiannus mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn gweithio'n ddigon annibynnol nac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae medrau llythrennedd y disgyblion yn dda yn Gymraeg drwy'r ysgol ac yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa bynciol a chyffredinol eang ac amrywiol. Maent yn rhugl ac hyderus wrth drafod eu gwaith.

Mae safonau llafar Cymraeg yn arbennig o gryf drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar dafodiaith gyfoethog yr ardal ac yn ei defnyddio'n effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae ymwybyddiaeth gadarn y disgyblion o hanes, traddodiadau a threftadaeth yr ardal yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. O oed cynnar, maent yn datblygu technegau da i fynd i'r afael â thestunau darllen, ac erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2 maent yn darllen yn gywir a rhugl. Mae'r mwyafrif yn defnyddio goslef llais yn dda i gyfleu ystyr pan fyddant yn darllen yn gyhoeddus.

Gall y disgyblion ysgrifennu mewn ystod dda o ffurfiau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynhyrchu darnau estynedig o waith ac mae'r mwyafrif yn cyflwyno'u gwaith yn gynyddol gywir a thaclus, gan atalnodi a pharagraffu'n effeithiol. Nid yw gwaith lleiafrif o'r disgyblion yn ddigon cywir na chwaith yn cael ei gyflwyno'n ddigon taclus.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau. Yn y mwyafrif o sesiynau dysgu, maent yn ymateb yn dda pan fydd athrawon yn gosod tasgau addas ar eu cyfer.

Mae niferoedd y carfanau sydd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn isel bob blwyddyn. Oherwydd hynny, nid oes modd gwneud dadansoddiad ystyrlon o ddata perfformiad yr ysgol dros amser.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniadau merched a bechgyn yn eu llyfrau gwaith nac yn ystod sesiynau dysgu.

Lles: Da

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cadw'n iach. Teimlant yn rhydd i droi at ffrindiau a staff os ydynt yn teimlo'n bryderus am unrhyw fater. Cânt gyfleon amrywiol i ymarfer corff yn

rheolaidd drwy'r gwersi addysg gorfforol wythnosol ac yn sgil eu gweithgarwch chwaraeon all-gyrsiol. Maent yn falch o'u hymdrechion i godi arian i sicrhau bod pob disgybl yn cael darpariaeth ffrwythau am ddim yn yr ysgol.

Mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda. Maent yn canolbwyntio'n dda iawn yn ystod sesiynau dysgu, ac yn ymroi'n bositif at eu tasgau.

Y canran presenoldeb yw 94.4%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu cynnydd cyson yn y canran dros y pum mlynedd diwethaf ond, o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran y gyfran disgyblion â hawl i ginio am ddim, bu'r ysgol yn y 50% isaf dros y cyfnod hwn. Serch hynny, mae'r niferoedd isel yn golygu y gall absenoldeb un plentyn gael effaith arwyddocaol ar yr ystadegau.

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn cael cyfle i gymryd cyfrifoldeb a chynnig syniadau ar faterion yn ymwneud â'r ysgol drwy drafodaethau'r cynghorau dosbarth a'r Cyngor Ysgol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac mae'r disgyblion yn elwa o'r gyd-berthynas gyson â hi. Maent yn cael mwynhad mawr o'r amrywiol gyfleon i gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag asiantaethau lleol fel y Fenter Iaith a'r Parc Cenedlaethol.

Mae disgyblion Llanychllwydog yn ymddwyn yn naturiol a chartrefol iawn ymysg staff ac ymwelwyr fel ei gilydd. Maent yn sylweddoli pwysigrwydd gweithio'n galed i wella eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Mae hyn, ynghyd â'r profiadau niferus a gânt wrth gydweithio'n agos gyda'r gymuned ac asiantaethau lleol, yn eu paratoi'n dda ar gyfer datblygu eu medrau ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu priodol sydd yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol yn llawn. Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwersi diddorol. Serch hynny, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ddigon bwriadus ar gyfer sicrhau dilyniant yn y medrau ar draws ystod y pynciau.

Mae darpariaeth y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref. Ar y cyfan, mae'r staff yn modelu iaith safonol yn effeithiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar disgyblion ac mae'r staff yn cyflwyno ac yn datblygu tafodiaith yr ardal yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion i ddysgu am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant sy'n cynnwys gweithgareddau yn codi o gydweithio effeithiol gyda'r Urdd a menter iaith Sir Benfro. Mae rhain yn cyfrannu'n dda at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae gweithgarwch y plant ar gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda yn yr ysgol. Maent wrth eu bodd yn gweithio ar brosiectau sy'n eu haddysgu am

fforestydd trofannol, cadwraeth ac ailgylchu a darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt godi arian er lles yr ysgol ac elusennau amrywiol fel Plant Mewn Angen a Comic Relief.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o wersi yn dda. Yn y gwersi gorau, mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu i ennyn diddordeb bron pob disgybl. Serch hynny, nid yw'r tasgau bob amser yn diwallu anghenion disgyblion o wahanol allu.

Mae perthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion a'u hathrawon sy'n cyfrannu at ddysgu buddiol. Mae staff cynorthwyol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol yn enwedig wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yng nghyfnod allweddol 2. Ar y cyfan, mae gan yr athrawon wybodaeth dda am yr holl feysydd dysgu ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol i ysgogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol i fesur cynnydd ac i flaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o system olrhain cynnydd er mwyn asesu, adnabod bylchau yn y dysgu a chynllunio'n fwriadus.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn ymsefydlu'n briodol yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae sylwadau llafar athrawon i waith y disgyblion yn dda ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ymateb iddynt. Mae sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yn datblygu'n dda ac yn annog y disgyblion i asesu eu gwaith er mwyn gwella perfformiad eu hunain.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi sylw da i gynnydd a datblygiad eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae gan staff yr ysgol berthynas dda gyda'r disgyblion ac mae'r disgyblion yn dangos parch tuag atynt ac yn ymddiried ynddynt.

Mae'r cyngor ysgol yn cael cyfle i godi arian i brynu ffrwythau i'r disgyblion ac mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gefnogi elusennau amrywiol fel cancr y fron a diwrnod trwynau coch. Mae'r disgyblion yn elwa o ysgwyddo'r cyfrifoldeb ac yn ei gymryd o ddifrif.

Mae perthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r broses ar gyfer adnabod a chefnogi anghenion ychwanegol disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn gynnar iawn â darparu cefnogaeth ychwanegol addas i'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae gan bob disgybl sydd ar y gofrestr anghenion ychwanegol gynllun addysg unigol addas sydd yn cael ei adolygu'n dymhorol gyda'r rhieni. Maent yn sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu'n llawn.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Llanychllwydog yn ysgol garedig, gysurus a chefnogol sy'n cynnal cysylltiad agos iawn â'r gymuned leol ac yn dathlu hynny. Caiff pob disgybl ei gynnwys ym mywyd bob dydd yr ysgol a chânt eu hatgoffa, drwy arwyddair newydd yr ysgol, mai hwy yw 'Gwreiddiau'r Gorffennol, Canghennau'r Dyfodol'. Mae pawb yn cael mynediad i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Cefnogir y trefniadau hyn gan ddogfennaeth, polisïau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Er bod adeilad yr ysgol yn hen, cafodd ei addasu a'i addurno'n ddiweddar i greu amgylchedd deniadol a lliwgar iawn. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn ysgogi dysgu'r disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r safle ar gyfer chwarae a dysgu ac mae gardd yr ysgol a'r goedwig gyfagos yn ychwanegu at brofiadau'r disgyblion.

Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus drwy'r adeilad sy'n dangos gwaith a chyflawniadau'r disgyblion. Mae'r cyfleusterau'n lân ac addas a chaiff y safle a'r adeilad eu cadw'n raenus a diogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gweledigaeth y pennaeth a'r dirprwy yn glir ac wedi ei seilio'n gadarn ar arwyddair yr ysgol 'Gwreiddiau'r gorffennol, canghennau'r dyfodol'. Mae'r weledigaeth hon wedi ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni, ac mae pwyslais clir ar le a chyfraniad yr ysgol o fewn y gymuned leol.

Mae'r strwythur rheolaethol yn dyrannu cyfrifoldebau'n glir, ac mae'r uwch dîm rheoli wedi llwyddo i sicrhau rhediad esmwyth yr ysgol o fewn y drefn ffederal. Mae'r holl staff yn deall eu rôl strategol o fewn y strwythur, er bod rolau y cydlynwyr pynciau yn ansefydlog ar hyn o bryd oherwydd y newidiadau mewn staffio. Mae gwaith yr uwch dîm yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ar y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda fel sefydliad ac, ar y cyfan, yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er eu bod yn gefnogol i'r ysgol, nid ydynt yn herio'r ysgol ddigon trwy gwestiynu perfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Mae'r staff yn canolbwyntio'n addas ar fedrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol, ac mae asesu ar gyfer dysgu'n cael effaith gynyddol

gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol broses hunanarfarnu effeithiol. Mae arweinwyr yn monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion a chynlluniau gwaith yr athrawon. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn ddadansoddol ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi sylw i farn rhieni, ond nid oes dull ffurfiol o gasglu barn disgyblion am ddysgu ac addysgu ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac mae'r pennaeth wedi ei rannu'n briodol gyda'r llywodraethwyr. Mae arweinwyr ac athrawon yn cofnodi a dadansoddi data yn effeithiol er mwyn arfarnu cynnydd a chyrhaeddiad pob disgybl yn drylwyr.

Mae cysylltiad clir rhwng deilliannau'r hunanarfarnu a'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu'n canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol ac yn nodi'r camau gweithredu'n effeithiol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn monitro a gwerthuso'r cynnydd ar y blaenoriaethau yn dda, ac yn adrodd arnynt yn rheolaidd i'r corff llywodraethol.

Yn ystod y misoedd diweddar, mae'r ysgol wedi bod yn rhan o rwydwaith broffesiynol gyda'i hysgol bartner i ddatblygu rhifedd. Cafodd hyn effaith bositif ar safonau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae perthynas gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion.

Mae'r cydweithio gyda'r ysgol bartner yn gadarn iawn, ac mae disgyblion Ysgol Llanychllwydog yn elwa'n fawr o'r ddarpariaeth ychwanegol sy'n deillio o'r bartneriaeth effeithiol ag athrawon a disgyblion yr ysgol arall. Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion cynradd eraill yn lleol hefyd yn dda.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn briodol drwy ymweliadau gan nifer o ymwelwyr ac mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella deilliannau disgyblion. Mae'r cydweithio gyda'r fenter iaith leol ar gofnodi tafodiaith a gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddatblygu ardal ddysgu yn y goedwig gyfagos wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda'r ddwy ysgol uwchradd leol y trosglwyddir disgyblion iddynt. Caiff disgyblion hyn eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod er mwyn gwella ansawdd ei darpariaeth.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n dda. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Mae'r strwythur rheoli sy'n cyplysu'r ddwy ysgol o ran arweinyddiaeth yn effeithlon ac yn sicrhau adnoddau da ar gyfer yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad a sicrhau cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso yn ateb gofynion statudol. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn elwa o gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant addas mewn meysydd penodol.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol, sy'n cael ei gyfoethogi ymhellach gan y cydweithio rhyngddi a'i hysgol bartner.

Ar sail hyn, ac oherwydd bod disgyblion yn cyflawni safonau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae nifer y disgyblion sydd yn y carfanau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gyson yn isel iawn – e.e. pedwar ym Mlwyddyn 6 yn 2012, un yn 2013. Oherwydd hyn, nid yw'n bosib dod i farn ystyrion yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data perfformiad.

Yn nghyfnod allweddol 2, ers 2008, mae 'r disgyblion wedi cyrraedd 100% ym mhob pwnc ac yn y dangosydd pwnc craidd. Yr unig eithriad i hyn yw 2012 pan roedd 75% o'r disgyblion wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg ac yn y dangosydd pwnc craidd, a 66% mewn Saesneg. O'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, bu'r ysgol yn y 25% uchaf ym mhob pwnc bob blwyddyn, ac eithrio 2010 pan oedd yn y 25% isaf yn y dangosydd pwnc craidd a Saesneg ac yn yr 50% isaf mewn Cymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, yr oedd pob disgybl wedi cael canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig gan gyrraedd deilliant 5 ym mhob un o'r meysydd dysgu a gaiff eu hasesu.

Mae'r canlyniadau ar y lefelau uwch (Lefel 5+) yn gyson is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Derbyniwyd 14 o ymatebion i'r holiaduron. Oherwydd y nifer isel, nid yw cymhariaeth gyda thueddiadau cenedlaethol yn ystyrion.

Mae pob disgybl yn:

- teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw'n poeni neu'n gofidio;
- credu bod athrawon ac oedolion eraill yn ei helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; ac
- yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw gwaith yn anodd.

Mae bron pob disgybl yn:

- credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; ac
- ei fod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn credu bod:

- yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach;
- llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddo/iddi gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddo/iddi wneud ei waith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae mwyafrif y disgyblion yn credu:

- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a hyn yn eu galluogi i wneud eu gwaith.

Holiaduron Rhieni

Derbyniwyd 10 o holiaduron rhieni, sy'n cynrychioli canran uchel o holl rieni'r ysgol. Oherwydd y nifer isel, nid yw'n ystyrlon gwneud cymhariaeth gyda thueddiadau cenedlaethol.

Dywed pob rhiant:

- bod eu plant yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wedi dechrau yn yr ysgol;
- bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- bod staff yn trin disgyblion yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywedodd y rhan fwyaf o rieni:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod y gwaith cartref a gaiff ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb.

Dywedodd llawer o rieni bod:

- eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- yr addysgu'n dda;
- eu plant yn cael cymorth ychwanegol pan fydd angen hynny arnynt;
- eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a'u
- bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Terwyn Tomos	Arolygydd Cofnodol
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Tegwen Ellis	Arolygydd Cymheiriaid
Enfys Howells	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.